CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) CAERFFILI

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU 25 TACHWEDD 2021 AM 2.00PM

PRESENNOL:

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, Mrs T. Parry, J. Taylor

Cynrychiolwyr Ffydd a Chred: Mrs J. Jones (Eglwys yng Nghymru)

Cynrychiolwyr Undebau Athrawon: Mrs K. McCullough (NASUWT), Mrs C. McLaughlan (NASUWT)

Ynghyd â:

Ms H. Jones (Partner Cwricwlwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg), V. Bodenham (Swyddog Gwella Ysgolion), R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau), J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau)

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Cafodd CYSAG eu hatgoffa bod y pwyllgor yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Weld. Nodwyd y byddai pleidleisiau ar benderfyniadau yn cael eu cynnal drwy Ddangos Dwylo a galw o'r rhestr.

1. PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD I CYSAG CAERFFILI

Cynigiwyd ac eiliwyd y byddai'r Cynghorydd J. Taylor yn cael ei benodi fel Cadeirydd CYSAG Caerffili ac y byddai Mrs J. Jones yn cael ei phenodi yn Ddirprwy Gadeirydd CYSAG Caerffili. Cafwyd cytundeb unfrydol drwy ddangos dwylo.

> PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd J. Taylor yn cael ei benodi yn Gadeirydd CYSAG Caerffili ac y byddai Mrs J. Jones yn cael ei phenodi yn Ddirprwy Gadeirydd CYSAG Caerffili.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i Ms Hayley Jones (Partner Cwricwlwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg) a Ms Vicky Bodenham (Swyddog Gwella Ysgolion), a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o CYSAG Caerffili.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Collis, Mrs G. Oliver, a J. Simmonds, ynghyd â Miss H. Bartley (ATL), Mrs M. Jones (UCAC), Mrs T. Lloyd (NAHT), Mr K. Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru), Mr M. Gray (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mr M. Gray (Yr Eglwys Fethodistaidd), Uwchgapten P. Hubbard (Byddin yr Iachawdwriaeth) a Mr M. Western (Archesgobaeth Gatholig).

3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

4. COFNODION CYSAG CAERFFILI – 12 TACHWEDD 2020

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion cyfarfod CYSAG Caerffili a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 yn cael eu cymeradwyo a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Caerffili a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

5. CAMAU GWEITHREDU A MATERION SY'N CODI O'R COFNODION

Nodwyd nad oedd unrhyw faterion yn codi ar yr achlysur hwn.

6. DIWEDDARIAD AR AELODAETH CYSAG CAERFFILI

Cyflwynodd Ms Hayley Jones (Partner Cwricwlwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg) adroddiad, a oedd yn darparu diweddariad ar aelodaeth bresennol CYSAG Caerffili o fis Tachwedd 2021 a chyfeiriodd at unrhyw swyddi gwag yn y Pwyllgor.

Nododd CYSAG fod un swydd wag ym Mhwyllgor A ar gyfer cynrychiolydd ffydd heb fod yn Gristnogol a dwy swydd wag ym Mhwyllgor B ar gyfer yr undebau athrawon NEU ac ASCL. Roedd dwy swydd wag gyfetholedig hefyd ar gyfer cynrychiolwyr ieuenctid. Gwneir gwaith i lenwi'r swyddi gwag hyn yn ystod 2022.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd CYSAG y diweddariad ar yr aelodaeth a'r cynnydd a wnaed hyd yma i lenwi'r swyddi gwag.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG CAERFFILI 2020-2021

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Caerffili a oedd yn amlinellu gweithgareddau CYSAG yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Gofynnwyd i CYSAG ystyried, nodi a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft a chytuno ar unrhyw welliannau terfynol i'w cynnwys yn y ddogfen. Ar ôl ei gymeradwyo, byddai fersiwn terfynol y ddogfen yn cael ei chyfieithu a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 30 Rhagfyr 2021.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a chynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol CYSAG ar gyfer 2020-2021. Trwy ddangos dwylo (a nodwyd bod 6 o blaid, 0 yn erbyn a 0 atal pleidlais) cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y byddai Adroddiad Blynyddol CYSAG Caerffili ar gyfer 2020-2021 yn cael ei gymeradwyo a'i ddosbarthu'n briodol ar ôl ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Rhagfyr 2021.

8. YMATEB CYSAG CAERFFILI I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR GANLLAWIAU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG CWRICWLWM I GYMRU

Cyflwynodd Ms Jones yr eitem a oedd yn gofyn i CYSAG dderbyn a nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan Gadeirydd CYSAG Caerffili a oedd yn deillio o ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru 2022.

Nodwyd bod yr ymatebion drafft wedi'u dosbarthu i Aelodau CYSAG ar gyfer eu sylwadau ym mis Gorffennaf 2021, ac yn dilyn mewnbwn a dderbyniwyd gan yr Aelodau, cyflwynwyd yr ymateb terfynol i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad olaf ar 16 Gorffennaf 2021. Mae copi o'r ymateb wedi'i atodi i'r adroddiad.

Esboniodd Ms Jones nad oedd yn ei swydd pan baratowyd yr ymateb yn ystod haf 2021, ond rhoddodd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ers hynny gyda chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm newydd i Gymru. Disgwylir i'r canllawiau newydd gael eu rhannu yn fuan gyda CYSAG ar gyfer cael eu sylwadau ond bydd o dan embargo hyd at ei gyhoeddiad ar wefan Hwb. Yna bydd Awdurdodau Lleol ar hyd a lled Cymru yn defnyddio'r canllawiau hyn i symud ymlaen i baratoi a mabwysiadu Maes Llafur y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nodwyd bod yn rhaid i'r Maes Llafur Cytunedig gyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r fframwaith ategol, a bwriedir iddo ddarparu dull i gefnogi ysgolion i gyflenwi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn hytrach na bod o natur ragnodol. Trefnir dyddiad ar gyfer Cynhadledd Sefydlog (Maes Llafur Cytunedig) CYSAG Caerffili maes o law i ystyried y paratoadau ar gyfer Maes Llafur Cytunedig Newydd i Gaerffili.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd CYSAG yr ymatebion atodedig i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan Gadeirydd CYSAG Caerffili ar ran ei Aelodau, ynghyd â diweddariad ar ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru.

9. DIWEDDARIADAU AR Y CWRICWLWM – ASESIADAU CBAC 2022 / CANLLAWIAU AR DDYLUNIO A CHYFLENWI CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG GORFODOL

Rhoddodd Ms Hayley Jones ddiweddariad ar asesiadau CBAC ar gyfer 2022.

Cynghorwyd CYSAG fod CBAC wedi cynnal dau ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus llwyddiannus (un drwy gyfrwng y Gymraeg a'r un arall yn Saesneg). Mae CBAC wedi pwysleisio, pe byddai'r arholiadau yn cael eu cynnal yn 2022, y byddai addasiadau yn parhau i gael eu gwneud pan fydd disgwyl i ddisgyblion ateb tri o'r pedwar cwestiwn ar gyfer TGAU ar draws y tair uned. Bydd Blwyddyn 11 yn sefyll dau bapur ar ddiwedd tymor arholiadau 2021/22. Nid oes unrhyw ofyniad i ystyried safbwynt byd-eang nad yw'n grefyddol yng nghwestiwn 3D ac felly mae hwn wedi'i ddileu er mwyn sicrhau bod yr arholiad yn fwy teg. Nodwyd y bydd disgyblion yn cael eu credydu os ydynt yn trafod hynny yn yr arholiad, ond yn yr un modd ni fyddant o dan anfantais os na fyddant yn cyfeirio at hyn. Yn ogystal, mae sillafu, atalnodi a gramadeg yn parhau i fod yn berthnasol i gwestiwn 3 neu 4D (pa un bynnag y bydd disgyblion yn dewis ei ateb).

Nodwyd hefyd fod CBAC wedi hysbysu ysgolion ynghylch y cynllun wrth gefn sydd ar waith pe na fyddai'r arholiadau yn mynd rhagddynt yn ystod yr haf 2022. Mae yna bosibilrwydd y bydd CBAC yn gwneud cais i waith gael ei gyflwyno iddyn nhw ei

gymedroli ac felly mae'n rhaid i ysgolion baratoi tasgau i'w darparu i'w cymedroli os gwneir cais o'r fath.

O ran y canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, esboniodd Ms Jones fod ysgolion yn aros iddynt gael eu cyhoeddi er mwyn gallu symud ymlaen gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru a chyflenwi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eu cynlluniau gwersi.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau ar gyfer Ms Jones, a nododd CYSAG Caerffili fanylion y diweddariadau i'r cwricwlwm mewn cysylltiad ag Asesiadau CBAC 2022 a'r canllawiau ar ddylunio a chyflenwi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

10. DIWEDDARIADAU CWRICWLWM I GYMRU

Rhoddodd Ms Jones ddiweddariad mewn cysylltiad â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a fydd yn weithredol ym mis Medi 2022. Nodwyd bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn paratoi i gyflwyno modiwlau ar draws y gwahanol gyfnodau er mwyn cefnogi uwch arweinwyr ac i gael eu rhaeadru i ysgolion. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu recordio hefyd er mwyn i athrawon nad ydynt wedi gallu eu mynychu eu gweld.

Cynghorwyd CYSAG mai ffocws penodol presennol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yw cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru a datblygu rhaglen arweinyddiaeth ganol sy'n darparu cyfleoedd i arbenigo yn y meysydd dysgu penodol. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi bod yn isel iawn oherwydd pwysau Covid mewn ysgolion ac felly mae'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal mewn ffordd hyblyg, unwaith eto gyda sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw er mwyn i bawb allu cael mynediad atynt pan fydd yn bosibl. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi cydnabod eu bod yn dibynnu ar ewyllys da y staff i gyflenwi eu cydweithwyr i fynychu digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Yn ogystal, sefydlwyd grŵp dylunio eilaidd i fynd i'r afael â'r sector cynradd ac i ganolbwyntio arno, gyda rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu sefydlu fel y camau nesaf. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg hefyd wedi sefydlu grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar agweddau amrywiol ar y cwricwlwm newydd ond cafwyd anawsterau hefyd yn cynnal y rhain oherwydd materion parhaus ynglŷn ag argaeledd staff ysgolion, ac mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r ymarferwyr hynny sydd wedi gallu eu mynychu.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau ar gyfer Ms Jones, a nododd CYSAG Caerffili fanylion y diweddariad ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022.

11. DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST 2022

Cyflwynodd Ms Jones adroddiad a oedd yn cynghori CYSAG Caerffili am ddyddiad a thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2022, y camau gweithredu a gymerwyd i hysbysu ysgolion ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i gofáu'r achlysur hwn, ac i CYSAG ystyried coffadwriaethau lleol Diwrnod Cofio'r Holocost sydd ar gael.

Nodwyd bod Clerc CYSAG wedi dosbarthu gwybodaeth i ysgolion ynglŷn â Diwrnod Cofio'r Holocost 2022 er mwyn annog ysgolion i nodi'r achlysur mewn rhyw ffordd ac i athrawon wneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost. Y thema ar gyfer 2022 yw ***"Un Dydd"*** ac mae'n bosibl dehongli'r thema hon mewn sawl ffordd, sydd wedi'u hamlinellu yn y Gweledigaethau Thema ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod Diwrnod Cofio'r Holocost wedi'i gofáu mewn fformat gwahanol ym mis Ionawr 2021 oherwydd yr heriau a oedd yn deillio o'r pandemig

Covid-19 a'r cyfyngiadau symud oedd mewn grym ar y pryd. Cadarnhaodd, pe byddai'r cyfyngiadau yn galluogi i Gyngor Caerffili drefnu digwyddiad cofio ar gyfer 2022, y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu gydag aelodau CYSAG yn agosach at yr amser.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd CYSAG Caerffili fanylion y diweddariad ynghylch Diwrnod Cofio'r Holocost 2022.

12. AMSERLEN CYFARFODYDD 2022

Nododd CYSAG Caerffili fanylion cyfarfod arfaethedig Tymor y Gwanwyn a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 28 Mawrth 2022, gyda'r cyfarfod yn cael ei gynnal ar Microsoft Teams. Cynghorwyd CYSAG fod ymdrechion yn parhau hefyd i drefnu cyfarfodydd Cynhadledd Sefydlog (Maes Llafur Cytunedig) yn ystod Tymor y Gwanwyn 2022 a bydd yr Aelodau'n cael eu cynghori ynglŷn â'r rhain maes o law.

13-15. DERBYN A NODI COFNODION Y CYFARFODYDD CCYSAGAUC RHITHIOL A GYNHALIWYD AR 7 HYDREF 2020, 23 MAWRTH 2021 AC 16 MEHEFIN 2021

Cyfeiriwyd CYSAG Caerffili at y cofnodion a oedd wedi'u cynnwys ym mhapurau'r agenda, a nodwyd y trafodaethau a'r ystyriaethau o CCYSAGauC yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020, 23 Mawrth 2021 ac 16 Mehefin 2021.

16. ADBORTH O GYFARFOD RHITHIOL CCYSAGAUC YR HYDREF A GYNHALIWYD GAN TORFAEN AR 23 TACHWEDD 2021

Darparodd Ms Jones ddiweddariad ar gyfarfod diwethaf CCYSAGauC ac esboniodd fod pob Cynghorydd Addysg Grefyddol rhanbarthol wedi derbyn gwahoddiad i roi cyflwyniad ar eu consortiwm ac i esbonio ar ba gam y maent yn y datblygiad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth symud ymlaen. Nodwyd bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio yn awr i atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng CYSAG ac ysgolion er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ystod eang o brofiadau a ffydd sy'n rhan o gynrychiolwyr CYSAG er mwyn iddynt allu cyfrannu yn y cwricwlwm newydd.

Nodwyd bod adborth diddorol wedi'i dderbyn gan gonsortia eraill ar draws Cymru. Mae cynlluniau tebyg o gymorth i athrawon yn cael eu paratoi gan gonsortia rhanbarthol eraill. Mae CCYSAGauC hefyd yn creu Tîm Datblygu Dysgu Proffesiynol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac maent wedi ysgrifennu at bob CYSAG i wahodd athrawon cynradd ac uwchradd i ymuno â'r gweithgor hwn, a fydd yn ganolog i ddatblygiad modiwlau ar-lein ac adnoddau cysylltiedig, ac a fydd ar gael ar Hwb fel rhan o'r cynnig dysgu proffesiynol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Cadarnhawyd y bydd y llythyr yn cael ei ddosbarthu i holl ysgolion Caerffili yn fuan. Cyfeiriwyd yr aelodau hefyd at ddiweddariad gan CBAC yng nghyfarfod CCYSAGauC a'r trafodaethau ynghylch y Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau a nododd CYSAG Caerffili fanylion yr adborth o gyfarfodydd Tymor yr Hydref CCYSAGauC.

17. CYNRYCHIOLAETH YNG NGHYFARFODYDD NESAF CCYSAGAUC

Nodwyd nad oedd dyddiad cyfarfod nesaf CCYSAGauC wedi'i gadarnhau hyd yma. Bydd Clerc CYSAG yn anfon e-bost at bob aelod o CYSAG yn agosach at yr amser i geisio enwebiadau ar gyfer presenoldeb a bydd yn dosbarthu papurau'r agenda ar ôl eu derbyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd yn bresennol am eu cyfranogiad a daeth y cyfarfod i ben am 2.30p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2022.

_____

CADEIRYDD